# Disgrifiad Swydd
# Cydlynydd Cynllun

**Mae'r holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel arall**

**Yn atebol i'r canlynol:** Cydlynydd Tai â Chymorth

**Yn gyfrifol am y canlynol:** Amherthnasol

**Diben cyffredinol y swydd:**

Darparu gwasanaethau rheoli tai o safon i denantiaid hŷn sy'n byw yn eiddo Barcud, a fydd yn galluogi'r Gymdeithas i gyflawni ei hamcanion busnes a diwallu anghenion ei thenantiaid, gan sicrhau bod tenantiaid yn gallu gwireddu eu dyheadau o ran byw'n annibynnol.

**Cyfrifoldebau Allweddol –**

**Tai â Chymorth:**

- Cyflawni dyletswyddau gweithiwr cymorth ar gyfer tenantiaid Barcud sy'n byw mewn eiddo Tai â Chymorth.
- Asesu anghenion a sicrhau bod unigolion yn cael eu cyfeirio at wasanaethau.
- Cynnal asesiadau risg gyda thenantiaid, gan greu cynlluniau cymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, sy'n meithrin eu gallu a'u hyder ac sy'n dangos sut y gellir diwallu eu hanghenion unigol.
- Cadw cofnodion trylwyr ynghylch tenantiaid sy'n cael cymorth, gan ddiweddaru'r cofnodion wrth i asesiadau risg a chynlluniau cymorth gael eu rhoi ar waith.
- Darparu gwybodaeth i breswylwyr am eu cyfraniadau ariannol i gynlluniau Tai â Chymorth (taliadau gwasanaeth ac ati).
- Monitro iechyd a lles tenantiaid, gan nodi unrhyw newidiadau yn eu cynlluniau cymorth.
- Darparu cyngor ac arweiniad i denantiaid sy'n byw mewn eiddo Tai â Chymorth, gan gysylltu â sefydliadau allanol lle bo hynny'n briodol.
- Cynorthwyo tenantiaid newydd i symud i mewn i'r eiddo, a chynorthwyo tenantiaid sy'n gadael i symud allan o'r eiddo.
- Ymateb i alwadau brys, gan ddarparu cymorth a chysur i denantiaid.
- Creu a chynnal cysylltiadau cryf â'r gymuned leol.
- Annog tenantiaid i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hybu hynny, gan gynorthwyo i ddatblygu cynlluniau cyfranogiad preswylwyr.

- Rheoli a chynnal diogelwch yr eiddo Tai â Chymorth.
- Annog tenantiaid i ddefnyddio'r cyfleusterau cyffredin.
- Ymateb i unrhyw gwynion ac adrodd yn eu cylch yn unol â pholisi a gweithdrefnau Barcud.
- Cynnal profion rheolaidd ar gyfleusterau'r eiddo Tai â Chymorth.
- Paratoi'r ystafell i westeion, ei chadw ar gyfer pobl yn ôl yr angen, a chasglu'r tâl am ei defnyddio.
- Dirprwyo dros y Cydlynydd Tai â Chymorth yn ôl yr angen.

**Pobl:**

- Hybu diwylliant o gyflawni'n dda, sy'n hybu gwelliant parhaus ac arbedion effeithlonrwydd.
- Rhannu gwybodaeth am flaenoriaethau, cynlluniau, gweledigaeth ac amcanion y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol gan fodloni'r safonau gwasanaeth a'r targedau a gytunwyd.

**Corfforaethol:**

- Hybu, datblygu a rheoli partneriaethau effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Hybu mentrau iechyd a lles ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Darparu gwasanaeth ardderchog i bob cwsmer mewnol ac allanol.
- Gweithio'n unol â pholisïau'r Gymdeithas ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser ac ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod y Gymdeithas a'i gweithwyr yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a rheoleiddiol ynghyd ag arfer gorau.
- Ym mhob agwedd ar waith y Gymdeithas, hyrwyddo systemau cyfathrebu effeithiol, rhagoriaeth o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, a ffocws ar wella'n barhaus.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai fod yn rhesymol gofyn i ddeiliad y swydd eu cyflawni.

*Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn, ac o gofio y bydd gofynion, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bernir yn rhesymol ac yn briodol.*

# Manyleb Person

## Cydlynydd Cynllun

Mae'r fanyleb person hon yn nodi'r profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swydd Cydlynydd Cynllun yn Barcud. Mae'r holl sgiliau a'r holl brofiad yn hanfodol oni nodir yn benodol eu bod yn ddymunol (D).

**Cymwysterau**

- Addysg hyd at safon TGAU, gan gynnwys Saesneg (Iaith).
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf. (D)
- Trwydded yrru lawn.

**Profiad**

- Profiad o ddarparu gwasanaeth rheoli tai o safon, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.
- Profiad o weithio'n agos gyda chymunedau, cwsmeriaid neu denantiaid.
- Profiad o ymdrin â chwynion.
- Profiad o ddilyn prosesau yn unol â gweithdrefnau sefydliad.
- Profiad o ymateb i broblemau cwsmeriaid neu denantiaid sy'n hŷn neu y mae angen cymorth arnynt. (D)
- Profiad o feithrin cydberthnasau cadarn ag ystod o randdeiliaid allanol.
- Profiad o gadw cofnodion trylwyr a chywir.
- Profiad o weithio yn y sector cyhoeddus neu mewn cymdeithas dai.

**Sgiliau / Gwybodaeth**

- Dealltwriaeth dda o hyd a lled gwasanaethau rheoli Tai â Chymorth ac o'r heriau cyffredin sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hyn.
- Gwybodaeth am faterion iechyd a diogelwch, yn enwedig yng nghyswllt pobl hŷn.
- Y gallu i siarad Cymraeg a Saesneg.
- Ymrwymiad cryf i ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar bobl.
- Y gallu i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sgiliau cadarn o ran trafod rhifau, rhesymu a chyfathrebu'n ysgrifenedig.
- Y gallu i osod targedau perfformiad priodol a heriol iddo'i hun.